# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 30 Medi 2024 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 2 Hydref 2024 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 9 Hydref 2024 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Nia Jeffreys- Dirprwy Arweinydd y Cyngor

**PWNC** Ymrwymo arian o gyllideb 'Lluosi' Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG

Ymrwymo £28,512 yn ychwanegol i'r cynllun *Ymgyrch Rhifedd ar gyfer Tai Cymdeithasol* gan Adra (Tai) Cyf o'r gyllideb Lluosi yn nyraniad Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –

Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD**
**ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod Cabinet: | Y Cynghorydd Nia Jeffreys<br>Dirprwy Arweinydd y Cyngor |
| Enw a theitl awdur yr adroddiad: | Siwan Lisa Evans<br>Rheolwr Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd |
| Dyddiad y cymerwyd y penderfyniad : | 30 Medi 2024 |
| Llofnod yr Aelod Cabinet : |  |

**PWNC: Ymrwymo arian o gyllideb 'Lluosi' Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG**

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad:**

1. Ymrwymo £28,512 yn ychwanegol i'r cynllun *Ymgyrch Rhifedd ar gyfer Tai Cymdeithasol* gan Adra (Tai) Cyf o'r gyllideb Lluosi yn nyraniad Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG

**Rhesymau dros yr angen am y Penderfyniad:**

Cytunodd Cabinet 24 Ionawr 2023 (Eitem 6) i drefn ar gyfer ymrwymo arian o ddyraniad Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG.

Sefydlwyd Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd i ymrwymo'r arian, gyda'u hargymhellion i'w cadarnhau drwy law Taflen Penderfyniad Aelod Cabinet gan yr Arweinydd (neu'r Cabinet pe ddymunir hynny gan y Panel).

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad:**

Mae Lluosi (Multiply) yn is-thema o fewn Blaenoriaeth Buddsoddi 'Pobl a Sgiliau' yng Nghronfa Ffyniant Gyffredin y DG. Bwriad Lluosi yw cefnogi oedolion i wella eu sgiliau rhifedd. Lluosi yw'r unig ran o'r Gronfa gyda chyllideb sydd wedi ei gwarchod - mae **£2,942,620** wedi ei glustnodi ar gyfer Lluosi o fewn dyraniad Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG.

Mae **£1,825,050** o'r arian ar gyfer Lluosi eisoes wedi ei ymrwymo i gefnogi gweithgaredd yn y maes gan bum cynllun. Gweler papurau
Cabinet 20 Gorffennaf 2023 (Eitem 5)
Taflen Penderfyniad Aelod Unigol o Gabinet Cyngor Gwynedd (30 Ionawr 2024)

Taflen Penderfyniad Aelod Unigol o Gabinet Cyngor Gwynedd (5 Mawrth 2024)

Taflen Penderfyniad Aelod Unigol o Gabinet Cyngor Gwynedd (8 Awst 2024)

Mae **£1,117,570** o'r arian Lluosi yn nyraniad Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG yn weddill.

Derbyniwyd cais o'r newydd am £28,512 yn ychwanegol o arian i'r cynllun *Ymgyrch Rhifedd ar gyfer Tai Cymdeithasol* gan Adra (Tai) Cyf i ddarparu gweithgareddau sy'n gymwys i dderbyn arian Lluosi.

Mae Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd wedi argymell ymrwymo cyfanswm o £28,512 o'r arian Lluosi sydd yn weddill yn nyraniad Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG i'r cynllun uchod.

Mae'r Daflen Penderfyniad yma yn adlewyrchu argymhelliad y Panel.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau:**

Dim

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad:**

Prif Swyddog Cyllid:

*Mae amser cyfyngedig i ddefnyddio'r ffynhonnell arian yma, a gan fod y cynlluniau yn gymwys ar ei gyfer, rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir.*

Swyddog Monitro:

*Rwy'n fodlon gyda phriodoldeb y trosglwyddiad sydd yn deillio o ymgynghoriad gyda'r Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin.*

Aelod(au) Lleol:

Ddim yn fater lleol